

# YSGOL Y STRADE



## Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i Rieni

**2016- 2017**

## Gareth Beynon Thomas, Cadeirydd y Corff Llywodraethu

### **Annwyl Riant/Warcheidwad,**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr am y flwyddyn ysgol 2016-17 i'ch sylw. Bu'n flwyddyn lwyddiannus arall i'r ysgol. Mae enw da a llwyddiant yr ysgol wedi arwain at ddod yn Ysgol Arloesol a Chreadigol Arweiniol. Mae hwn yn ddatblygiad cenedlaethol cyffrous sydd unwaith eto yn cadarnhau statws yr ysgol.

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Mrs Heather Lewis sydd, ar ôl wyth mlynedd fel Pennaeth, wedi penderfynu ymddeol a symud ymlaen i wynebu heriau newydd. Hoffwn hefyd ddiolch i'r athrawon a'r staff am eu hymroddiad yn ogystal â'r plant am eu llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Hoffwn hefyd ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth i'ch plant ac am sicrhau eu bod yn y lle iawn ac ar yr amser iawn i gymryd rhan yng nghyfleoedd amrywiol yr ysgol. Mae'r ysgol yn sicr yn rhoi gwreiddiau ac adenydd i'n plant.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon sydd yn cynnal gweithgareddau i gymdeithasu ac i godi arian ar gyfer ein plant. Cyfrannir yn flynyddol at gostau adnoddau ychwanegol i'r ysgol.

Mae'r Llywodraethwyr yn awyddus iawn i'ch sicrhau eu bod yn cymryd eu dyletswyddau o ddifrif ac yn gwneud hynny drwy'r pwyllgorau amrywiol sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod polisi a gweithgareddau'r ysgol.

Mae croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth neu Gadeirydd y Corff Llywodraethol os hoffech chi drafod unrhyw fater sydd yn yr adroddiad.

Yr eiddoch yn ddiffuant  
**Gareth Beynon-Thomas**  
**Cadeirydd y Corff Llywodraethol**

## Mr Geoff Evans, Pennaeth

Mae'n falch gennyf gofnodi canlyniadau arholiadau cryf iawn eto eleni. Gellir gweld y cynnydd a wnaed yn y data sydd wedi'u hatodi yng nghefn yr adroddiad. Mae'r athrawon a'r myfyrwyr wedi parhau i weithio'n galed er mwyn cynnal y safonau uchel a bennwyd yn Y Strade dros y blynyddoedd diwethaf. Bu llawer o lwyddiannau eraill a gofnodwyd ar wefan yr ysgol ac yn ein papurau lleol a thrwy trydar.

Rydyn yn ymfalchio yn ein partneriaethau gydag ysgolion a sefydliadau eraill yng Nghymru i ddatblygu ein dysgu ac addysgu a phrofiadau ehangach ein disgyblion. Cydnabyddir Ysgol Y Strade fel ysgol arweiniol mewn sawl maes, a bellach rydym yn rhan o gynllun rhyngwladol Erasmus er mwyn datblygu ein Rhaglen Dysgu Byd Eang. Rydym hefyd wrthi'n gweithio'n ddyfal gyda Menter Cwm Gwendraeth Elli a'r Urdd i ehangu'r cyfleoedd i'n disgyblion gymdeithasu trwy'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol ar y safle ac yn y gymuned. Mae niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn manteisio ar y clybiau Gwaith Cartref yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol ar nos Fawrth a nos Iau.

Mae gwaith adeiladu sylweddol wedi digwydd ar y safle dros y tair blynedd diwethaf. Rydym ni fel ysgol gyfan yn gwerthfawrogi'r adnoddau modern a'r holl ystafelloedd sydd wedi'u hadnewyddu yn y prif adeilad a byddwn yn gweithio'n galed i gynnal a gwella amgylchedd yr ysgol ymhellach.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn agored ac yn onest am bob agwedd ar agenda gwella'r ysgol ac mae barn disgyblion a rhieni yn rhan annatod o'r agenda honno. Mae'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan ddisgyblion a rhieni wedi'u cynnwys yn y cynllun datblygiad ysgol. Anogir y Cyngor Ysgol, y cynghorau blwyddyn a'r Llysgenhadon Ifanc Ieithoedd Modern a Chwaraeon i sicrhau llais cryf i ddisgyblion yr ysgol ac mae'r trafodaethau yn aeddfed a chynhyrchiol.

Rydym am sicrhau ein bod yn ymwybodol o farn pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Felly cofiwch lenwi'r holiadur a ddsberthir ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ac ar y nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad ac, os yw'n briodol, awgrymu syniadau y gallwn eu mabwysiadu er budd yr ysgol.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

**Geoff Evans , Pennaeth**

## CORFF LLYWODRAETHOL - 2017-2018

**Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Mr Gareth Beynon-Thomas

**Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr:** Mr Peter Dutton

**Pennaeth:** Mr Geoff Evans

**Clerc i'r Llywodraethwyr:**

Mrs Iris Williams, Rheolwr Busnes yr Ysgol [iris@strade.sirgar.sch.uk](mailto:iris@strade.sirgar.sch.uk)

**Clerc i'r Is-bwyllgorau Llywodraethwyr:**

Mrs Beryl Bowen, Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr [bbowen@strade.sirgar.sch.uk](mailto:bbowen@strade.sirgar.sch.uk)

Mae **20** o aelodau ar y Corff Llywodraethol:

Pennaeth

6 Rhiant Llywodraethwr

5 Cynrychiolydd yr ALI

2 Gynrychiolydd Athrawon

1 Cynrychiolydd Staff

5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n aelodau cymunedol

CYFENW	ENW	CYNYRCHIOLYDD	DYDDIAD GORFFEN
BEYNON-THOMAS	Gareth	AALL/LA	31/08/2020
DUTTON	Peter	AALL/LA	02/09/2020
DAVIES	Martin	AALL/LA	18/07/2020
HOPKINS(Cyng)	Gwyn	AALL/LA	04/09/2019
BROOM (Cyng)	Kim	AALL/LA	31/09/2021
HUGHES	Meilyr	CYMUNEDOL	16/05/2017
DAVIES	Sarah-Jane	CYMUNEDOL	19/10/2020
LLOYD	Vincent	CYMUNEDOL	04/11/2020
BURTON	Nerys	CYMUNEDOL	21/11/2020
SULLY	Robert	CYMUNEDOL	08/03/2021
EDWARDS	Eleanor	RHIANT	31/08/2020
HOPPING	Sara	RHIANT	12/06/2020
JONES	Alyson	RHIANT	06/11/2020
REES (Dr)	Ian	RHIANT	21/04/2020
WILLIS	Helen	RHIANT	06/11/2020
POWELL	Adam	STAFF DYSGU	01/10/2018
POOLMAN	Eleri	STAFF DYSGU	05/11/2018
ROLLAND	Bethan	STAFF ATODOL	30/10/2019

## Nodau Ysgol Y Strade

Mae'r ysgol yn darparu o fewn cymuned Gymraeg, hapus, a diogel, yr ystod ehangaf posibl o brofiadau addysgol, gan baratoi ein hieuenctid ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galluogi pob disgybl i gyflawni ei wir botensial yn academiaidd, yn ymarferol ac yn gymdeithasol ac i arddangos parch a chwarteisi tuag at gyd-ddisgyblion ac oedolion. Ysgol Gymraeg yw'r Strade, a disgwylir i'r disgyblion ddefnyddio'r iaith Gymraeg bob cyfle posibl y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

## Trefn y dydd

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwrs y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

8.30 - 8.40		Cofrestru
8.40 - 9.00		Gwasanaeth, cyfnod bugeiliol (8.40 – 9.15 ar fore Mercher)
9.00 - 10.00		Gwers 1
10.00 - 11.00		Gwers 2
11.00 -11.15		Egwyl
11.15 -12.15		Gwers 3
12.15 -1.15		Gwers 4
1.15 - 2.10		Cinio
2.10 - 2.15		Cofrestru
2.15 – 3.15		Gwers 5

## Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2017-18

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd	Dyddiau
		Dechrau	Diwedd		
Hydref 2017	5 Medi	30 Hydref	3 Tachwedd	22 Rhagfyr	74
Gwanwyn 2018	8 Ionawr	19 Chwefror	23 Chwefror	29 Mawrth	54
Haf 2018	17 Ebrill	28 Mai	1 Mehefin	23 Gorffennaf	65
<b>Dyddiau HMS Penodol:</b> Dydd Llun Medi 4ydd 2017, Dydd Llun Ebrill 16eg 2018					2
<b>Dyddiau HMS ar ddisgresiwn yr ysgol:</b> Dydd Llun, Ionawr 8fed; Dydd Llun Tachwedd 17eg, Dydd Mawrth , Gorffennaf 24 ain					

## Nosweithiau Ymgynghorol ar gyfer Rhieni

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i rieni drafod gydag athrawon yr ysgol ar y nosweithiau canlynol rhwng 4.00 a 6.30 o'r gloch

Tachwedd 9fed, 2017		Rhieni Blwyddyn 13
Tachwedd 30ain, 2017		Rhieni Blwyddyn 7
Rhagfyr 14eg, 2017		Rhieni Blwyddyn 11
Ionawr 25ain, 2018		Rhieni Blwyddyn 10
Chwefror 1af, 2018		Noson Dewis Bl 12 i ddisgyblion a rhieni Blwyddyn 11
Chwefror 8fed, 2018		Rhieni Blwyddyn 8
Mawrth 8fed, 2018		Noson Dewis Bl 10 i ddisgyblion a rhieni Blwyddyn 9
Ebrill 26ain, 2018		Rhieni Blwyddyn 12
Mawrth 22ain, 2018		Rhieni Blwyddyn 9

## Cyffredinol

Nifer disgyblion	Ionawr 2017	1055
Nifer Athrawon	Ionawr 2017	66

## Presenoldeb

Presenoldeb disgyblion	2014/2015	2015/2016	2016/2017
% Absenoldebau a awdurdodwyd	4.4%	4.2%	4.2%
% Absenoldebau heb awdurdod	0.6%	0.6%	0.3%
% Presenoldeb	95%	95.3%	95.5%

Targedau'r Corff llywodraethol o ran presenoldeb	2015/2016	2016/2017	2017/2018

95.5%

95.5%

95.6%

## Datganiad Cyllidol

Cytunir ar faterion cyllidol trwy gyfrwng Is-bwyllgor Cyllid y Llywodraethwyr. Dyma grynodeb o ddatganiad cyllidol yr ysgol yn 2016-17

Costau	Incwm	Gwariant	Sefyllfa diwedd blwyddyn
Gweithwyr		£4,010,187	
Adeilad		£303,700	
Teithio		£86,245	
Nwyddau a Gwasanaethau		£645,946	
Incwm		-£1,047,713	
Gwariant net		£3,998,365	
Fformwla 2014/2015	£3,948,007		
Gwarged 2013/2014	£206,373		
Cyfanswm ar gael	£4,154,380		
Cario 'mlaen 2017/2018			£156,015

## Perfformiad Disgyblion

Mae canlyniadau'r arholiadau allanol am 2017 wedi'u hatodi ar ddiwedd yr adroddiad sef yr Adroddiad Cryno o Gyraeddiadau Disgyblion 15 ac 17 oed 2016/17 (SSSP). Hoffai'r Llywodraethwyr longyfarch disgyblion a staff yr ysgol ar eu llwyddiant ar bob lefel a phwysleisiant pa mor falch ydynt o enw da'r ysgol. Sylwodd y Llywodraethwyr hefyd gyda balchder ar gyraeddiadau unigol rhai disgyblion a myfyrwyr.

<b>CA3 Perfformiad Lefel 5+</b>						
	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>Teulu 2017</b>	<b>ALI 2017</b>	<b>Cymru 2017</b>
Cymraeg	92%	93%	99%	94%	92%	94%
Saesneg	91%	91%	95%	95%	90%	91%
Mathemateg	92%	91%	99%	95%	92%	91%
Gwyddoniaeth	97%	95%	98%	97%	94%	94%
DPC	88%	87%	97%	93%	88%	87%

<b>CA4</b>						
	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>Teulu 2017</b>	<b>ALI 2017</b>	<b>Cymru 2017</b>
L2 Cymraeg	86%	84%	81%	78%	72%	73%
L2 Saesneg	85%	76%	79%	72%	69%	64%
L2 Mathemateg (GORAU)			66%	68%	64%	63%
L2Gwyddoniaeth	93%	84%	87%	88%	79%	76%
L1	99%	100%	100%	99%	98%	94%
L2	98%	98%	87%	78%	73%	67%
L2+	75%	71%	61%	63%	57%	55%
DPC	71%	68%	60%	62%	56%	53%
Pwyntiau (capio)	374	377	358	348	336	325

	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>Teulu 2017</b>	<b>ALI 2017</b>	<b>Cymru 2017</b>
% L3	100%	100%	100%	97%	98%	97%



## Cyrchnodau Disgyblion - 2016-17

Cyrchnodau Blwyddyn	11	12	13
Dychwelyd i'r ysgol	103	75	5
Addysg Uwch	-	-	63
Addysg Bellach /Coleg	65	4	4
Hyfforddiant	2	-	-
Gwaith	7	2	7
Eraill	-	-	-

### Cwricwlwm a Threfniadaeth

Bu trafodaethau mewn cyfarfodydd o'r Corff Llywodraethol ar Ymweliadau Her ERW, perfformiad disgyblion mewn asesiadau allanol, adroddiadau craffu ar waith disgyblion yn enwedig eu hymateb i adborth yr athrawon sef y deialog dysgwr. Ystyriwyd hefyd adroddiad Hunan arfarnu'r Ysgol a'r Cynllun Datblygu Ysgol, rhaglen trawsnewid system Anghenion Dysgu Ychwanegol, datblygiadau Llythrennedd, Rhifedd a Dysgu Digidol, Manylebau newydd TGAU, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, addasiadau i'r Cwricwlwm yn dilyn adroddiad Donaldson, dewisiadau Blwyddyn 10 a 12 ac adolygiad o strwythur staffio'r ysgol.

Ceir gwybodaeth fanwl am gwricwlwm yr ysgol mewn llyfrynau a baratowyd ar gyfer disgyblion a rhieni, sef Prosbectws yr Ysgol, Llwybrau Dysgu 14+, a Llwybrau Dysgu 16+. Yn ychwanegol fe gynhelir Noson Agored ar gyfer rhieni Blwyddyn 6 ym mis Hydref, Noson Dewis CA4 a'r Chweched ar gyfer rhieni Bl. 9 a 11 ym mis Mawrth, a seminar addysg uwch ar gyfer myfyrwyr a rhieni Blwyddyn 13 ym mis Medi.

Mae'r Llywodraethwyr yn eu tro yn ymweld ag adrannau'r ysgol yn ystod y flwyddyn ac yn mynychu sesiynau hyfforddiant llywodraethwyr.

### Polisi Iaith

Mae Ysgol Y Strade yn ysgol categori 2A. Cymraeg yw iaith swyddogol Ysgol Y Strade a dysgir pob pwnc, ac eithrio Saesneg, hyd at T.G.A.U. trwy gyfrwng y Gymraeg. Dysgir Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y

Gymraeg a'r Saesneg ym Mlynnyddoedd 9-11 ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gar i symud yr ysgol ar hyd y continwrm ieithyddol. Cynigir Bioleg Safon Uwch yn y ddwy iaith ers Medi 2015. Mewn gwersi Gwyddoniaeth a Mathemateg cyfrwng Cymraeg yn CA3 a CA4 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion wedi gadael ysgol. Ar hyn o bryd hefyd mae adrannau wrthi yn paratoi adnoddau ar-lein i gynorthwyo rhieni di-gymraeg i gynorthwyo eu plant a chynigir clybiau gwaith cartref ar ôl ysgol ar nos Fawrth a nos Iau.

## Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur.

## Polisiau

Adolygir polisiau'r ysgol yn dymhorol ar raglen dreigl gan y Pwyllgor Strategol cyn iddynt cael eu mabwysiadu gan y Corff Llywodraethol.

Mae Ysgol Y Strade yn cynnig addysg mewn awyrgylch gefnogol ac yn ceisio creu ethos sydd yn gyfrwng i hyrwyddo agweddau a gwerthoedd cadarnhaol mewn amgylchedd cartrefol a diogel.

Mae disgyblaeth dda a rheolau a weithredir yn deg a chyson yn hanfodol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu drwy system pwyntiau SIMS. Mae Côt Ymddygiad yr ysgol i'w weld yn y Llyfr Cyswllt a thrafodir y disgwiliadau yn y gwersi tiwtorial.

Gosodir gwaith neu fynychu atalfeydd i ddisgyblion sydd yn torri rheolau. Gellir gwahardd disgybl am gyfnod mewn achosion o gam-ymddwyn difrifol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson yna hysbysir y rhieni .

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwllian, ac yn ymateb yn syth os bydd problem o'r fath yn codi.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol 2016-17

Mae nod ac amcanion yr ysgol yn datgan ein bod yn ceisio darparu ar gyfer pob disgybl. Mae hyn yn cynnwys pob disgybl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Gall yr angen addysgiadol arbennig fod yn deillio o nifer o agweddau gan gynnwys: cyrhaeddiad academiaidd isel, cyrhaeddiad academiaidd uchel, anabledd corfforol, anghenion seicolegol, cefndir cymdeithasol, anhawster dysgu penodol, ymddygiad anghymdeithasol.

Yn 2016-17 yr oedd 18 o ddisgyblion ar ddatganiad o anghenion dysgu ychwanegol gyda nifer o ddisgyblion eraill wedi eu clustnodi fel rhai oedd ag angen cynhaliaeth. Tynnir disgyblion â datganiad weithiau allan o wersi fel eu bod yn cael eu dysgu mewn grwpiau bach neu'n unigol. Hefyd rhoddir cefnogaeth iddynt o fewn y dosbarth mewn gwersi yn y brif ffrwd yn ôl yr angen. Rhoddir cymorth penodol mewn darllen, sillafu a rhif i nifer o ddisgyblion eraill mewn sesiynau byrion ar ddechrau'r dydd. Hefyd tynnir rhai allan o wersi am gyfnodau er mwyn derbyn cymorth ychwanegol.

Mae cysylltiad agos iawn rhwng yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol ac adrannau eraill yn ogystal â chysylltiadau ag asiantau allanol e.e. y Seicolegydd Addysgol sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

Miss Rachel Davies, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sydd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig. Adolygir y datganiadau yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol.

Mr Vincent Lloyd yw llywodraethwr cyswllt i'r adran. Ceir 202 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA wedi eu dosbarthu fel a ganlyn.

<b>Blwyddyn</b>	<b>Datganiadau</b>	<b>Gweithredu yn yr ysgol a mwy</b>	<b>Gweithredu yn yr ysgol</b>
<b>7</b>	3	15	17
<b>8</b>	2	20	33
<b>9</b>	2	12	29
<b>10</b>	3	6	12
<b>11</b>	5	5	20
<b>12</b>	1	0	9
<b>13</b>	2	0	6
<b>Cyfanswm</b>	18	58	126

Crëwyd proffil ar bob disgybl ar y gofrestr AAA sef y PUT (Proffil Un Tudalen). Dengys y PUT farn y disgybl unigol, y ffactorau sy'n effeithio ar eu dysgu mewn gwersi, canlyniadau unrhyw brofion safonedig a thargedau athrawon.

Bellach derbynia nifer fawr o ddisgyblion sydd ar y Gofrestr AAA drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol.

## **Disgyblion Abl a Dawnus**

Mae ein hysgolion cynradd yn rhannu gwybodaeth gyda'r Strade ar ddoniau a thalentau disgyblion cyn iddyn nhw gyrraedd. Ceir cyfleoedd eang yn gwricwlaidd ac allgyrsiol i ddisgyblion abl a dawnus ar draws y pynciau. Defnyddir data cyrhaeddiad a thargedau heriol i adnabod a herio disgyblion i ragori.

## **Chwaraeon**

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y gwiredwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol, sef:-

- darparu amgylchedd diogel sy'n symbyliad i ddisgyblion a lle gallant weithio tuag at aeddfedrydd cyffredinol
- datblygu sgiliau corfforol
- hybu rhagoriaeth
- hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir y gweithgareddau canlynol:-

Rygbi	Badminton	Hoci
Pêl-droed	Aerobics	Pêl-fasged
Nofio	Trawsgwlad	Pêl-foeli
Athletau	Pêl-rwyd	Ymarfer cylched
Criced	Dawnsio creadigol	Ymarfer pwysau
	Golff	Gweithgareddau 5x60
Gymnasteg	Rownderi	Dug Caeredin

Trefnwyd Noson Ddathlu 'Gwobrwyo'r Gorau 'yng Ngwesty'r Strade ym mis Tachwedd 2016. Cafodd disgyblion yr ysgol y cyfle i bleidleisio am 'Seren Y Strade' ar ôl cyflwyniad arbennig gan y llysgenhadon ifanc a rhai o'r Llysgenhadon Chwaraeon yn y gwasanaeth boreol.

## Cynllun Hygyrchedd

Mae'r Llywodraethwyr yn falch o fedru cyhoeddi ers sawl blwyddyn bellach mae safle ac adeilad Ysgol Y Strade yn hygyrch ar gyfer disgyblion ac oedolion gydag ystod o anabledau a defnyddwyr cadair olwyn. Mae'r adeiladau newydd yn cynnwys tai bach ar gyfer yr anabl a lifftiau i'r lloriau uwch.

## Darpariaeth Cyfleusterau Toiled

Darperir 8 lleoliad ar gyfer toiledau i'r disgyblion gan gynnwys 4 i ferched a 4 i fechgyn. Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Rydym wedi gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur trwy gyflogi glanhawr ar safle yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar lanhau'r toiledau.

## Cynllun Ysgol Iach

Mae'r Strade yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Cenedlaethol ac wedi cyrraedd Cam 4 ac yn anelu at gyrraedd Cam 5 eleni "Mae ysgol iach yn un sy'n llwyddo i helpu disgyblion i wneud eu gorau ac adeiladu ar eu llwyddiannau". Mae gwasanaeth arlwyo'r ysgol yn gwireddu gofynion cynllun 'Blas am Oes' ac mae'r dewis o opsiynau iach yn ffreutur yr ysgol wedi gwella cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf ar ôl cynnal cyfarfodydd gyda'r Cyngor Ysgol. Mae gan y ffreutur a chaffi'r 6ed darpariaeth o fyrbrydau a diodydd iach, bar salad a ffrwythau a chlwb brecwast

Hybir pob agwedd ar iechyd da – emosiynol, meddyliol a chorfforol. Ceir ethos positif lle mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn bwysig a darperir gwybodaeth gyson gan staff ar agweddau o fyw yn iach drwy wersi ABCh, y BAC a Diwrnodau Iechyd penodol.

## Iechyd a diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Adeiladau y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch, Rheolwr Busnes yr Ysgol, [iris@strade.sirgar.sch.uk](mailto:iris@strade.sirgar.sch.uk) am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth.

## Prosbectws yr ysgol

Caiff Prosbectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill. Rhoddir copi i rieni'r plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu sy'n trosglwyddo o ysgol arall. Mae copiâu ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

## Arolwg Hydref 2012 a Chynllun Gweithredu ôl-Arolwg

Mae'r ysgol wedi llunio Cynllun Gweithredu fel ymateb i brif argymhellion yr arolygwyr ac wedi gwneud cynnydd ar bob un o'r argymhellion fel cydnabuwyd gan Estyn yn yr ôl ymweliad Chwefror 2014. Bellach mae'r ysgol yn parhau i weithredu ar yr argymhellion hynny drwy Gynllun Datblygiad yr Ysgol. Mae'r Pennaeth yn adrodd i'r Llywodraethwyr yn gyson ar sut mae'r ysgol yn ymateb i'r argymhellion.

## Cynllun Datblygiad Ysgol 2017-2018

Mae gan yr ysgol Gynllun Datblygiad sydd yn amlinellu'r camau er mwyn cyflawni prif feysydd gwelliant yr ysgol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae prif flaenoriaethau'r ysgol yn cynnwys y canlynol :-

**Targed 1:** Codi safonau yn y prif ddangosyddion.

**Targed 2:** Cynnyddu safonau Llythrennedd a Rhifedd disgyblion CA3

**Targed 3:** Datblygu staff er mwyn sicrhau dysgu ac addysgu da ac anelu at ragoriaeth yn yr ystafell ddosbarth.

**Targed 4:** Paratoi ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm yn sgil adroddiad Donaldson, gan gynnwys y fframwaith gymhwysedd digidol.

**Targed 5:** Sicrhau bod yr ysgol yn lleihau'r bwch amddifadedd, a chodi safonau grwpiau o ddysgwyr (PYD, LAC, B/M, MATH,ADY)

**Targed 6:** Cynnal a chryfhau perthynas yr ysgol gyda rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach.

## Targedau Meintiol 2016-17

CA3		CA4	
% L5+ Cymraeg	99%	% L2+	75%
		% 5+A*A	28%
% L6+ Cymraeg	71%	% L2+ Disgyblion PYD	44%
		% 5+A*A PYD	11%
% L7+ Cymraeg	31%	% L2	90%
% L5+ Saesneg	97%	% L2 Disgyblion PYD	66%
% L6+ Saesneg	70%	% L1	99%
% L7+ Saesneg	27%	% DPC	75%
% L5+ Maths	99%	% Bwlch Bechgyn / Merched L2	0%
% L6+ Maths	80%	Sgor Pwyntiau Cyfartalog Ehangach wedi'i chapio	400
% L7+ Maths	39%	% L2 Cymraeg	82%
% L5+ Gwyddoniaeth	98%	% L2 Saesneg	80%
% L6+ Gwyddoniaeth	79%	% L2 Maths	78%
% L7+ Gwyddoniaeth	36%	% L2 Gwyddoniaeth TGAU	75%
% DPC	98%	%A*/A Cymraeg	25%
% Bwlch Bechgyn/Merched DPC	0%	%A*/A Saesneg	25%
		%A*/A Mathemateg	25%
		%A*/A Gwyddoniaeth	29%

CA5	
Sgor pwyntiau cyfartalog	900

Presenoldeb	
Disgyblion bl 7-11	95.6%
Disgyblion PYD/LAC	90%



## Eraill

Mae'r llywodraethwyr yn ymfalchio yn yr amrywiaeth eang o gysylltiadau sydd gan yr ysgol yn y gymuned. Croesawyd amryw o siaradwyr i'r ysgol unwaith eto fel rhan o'r cwrs Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg Gysylltiedig â Gwaith a'r Fagloriaeth.

Yn ychwanegol fe gyfrannwyd at nifer o achosion da a nifer o weithgareddau lleol yn ystod y flwyddyn a threfnwyd ymweliadau a theithiau yng Nghymru, Lloegr ac i wledydd tramor.

Mae'r Swyddog 5/60, Swyddog yr Urdd, y Gweithiwr Ieuenctid a'r Cwnselydd yn cyfoethogi profiadau disgyblion ar draws yr Ysgol. Mae gan yr ysgol perthynas cryf iawn hefyd gyda PC Huw Freeman, ein heddwes cyswllt. Mae PC Freeman yn dilyn Rhaglen Ddysgu 'School Beat' ac yn darparu gwersi ar themau cyfoes yng nghyfnod allweddol 3, 4 a 5 trwy gydol y flwyddyn.

Adolygir polisiau'r Ysgol yn rheolaidd gan y Corff Llywodraethol. Cafodd polisiau Hyrwyddo'r Gymraeg, Dysgu ac Addysgu, Arholiadau – codi tâl. 'Amser o'r Gwaith' ar gyfer ysgolion sylw arbennig eleni. Fe fu Is-bwyllgor Cyllid a Marchnata o'r Corff Llywodraethwyr yn trafod materion cyllidol yn cynnwys effaith grantiau ychwanegol er enghraifft y Grant Amddifadedd a'r toriadau cyllid ar gyfer addysg rhagwelir dros y blynyddoedd nesaf. Fe fu Is-bwyllgor Adeiladau y Corff Llywodraethol yn trafod y materion canlynol yn ystod y flwyddyn:- asesiad risg cerbydau ar safle yr ysgol, iechyd a diogelwch, diogelwch y safle, materion cynnal a chadw.

Mae cofnodion y Cyngor Ysgol yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd o'r Corff Llywodraethol yn cynnwys materion bwyta'n iach yn ffreutur yr ysgol.

## Llwyddiannau Disgyblion

Mae'r Llywodraethwyr yn llawenhau ac yn ymfalchio mewn llwyddiant disgyblion yr ysgol mewn arholiadau, chwaraeon, eisteddfodau, cyngherddau, cystadleuthau, gweithgareddau dyngarol a nifer o feysydd eraill. Pleser, bob amser, yw clywed gan bobl o'r tu allan i'r ysgol am yr enw da sydd iddi yn gyffredinol ac am ymddygiad canmoladwy y disgyblion.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i'r disgyblion ac i'r staff a dymunwn hir barhad i'r ymdrechion hynny.